# Ordinhad 9
# Y Cyngor: Aelodau Annibynnol

**Corff Cymeradwyo:** Y Cyngor

**Dyddiad Cymeradwyo**: 10 Gorffennaf 2020

**Perchennog y polisi:** Ysgrifennydd y Brifysgol

**Cyswllt y polisi:** Dr Gwawr Taylor, saastaff@aber.ac.uk / 01970 622048

**Statws y polisi:** Diwygiwyd

**Fersiwn:** 3.1

**Dyddiad adolygu diwethaf:** Gorffennaf 2023

**Dyddiad adolygu nesaf:** Gorffennaf 2025

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn y Saesneg. / This document is also available in English.

**ORDINHAD 09**
**Y CYNGOR: AELODAU ANNIBYNNOL**

1. <u>Aelodau Annibynnol</u>

   1. Bydd hyd at naw aelod, nad ydynt yn aelodau o'r staff neu yn fyfyrwyr, yn cael eu penodi i'r Cyngor yn unol â'r Ordinhad hwn, am gyfnod o hyd at bedair blynedd. Ystyrir swyddogaethau Cadeirydd y Cyngor a Dirprwy Gadeirydd y Cyngor yn unol â'r darpariaethau ar wahân yn yr Ordinhadau perthnasol, ac nid yw'r penodiadau hynny yn cyfrif tuag at uchafswm nifer y penodiadau y mae modd eu gwneud yn unol â'r Ordinhad hwn.

   2. Bydd Clerc y Cyngor yn sicrhau bod y lleoedd gweigion yn cael eu hysbysebu'n allanol. Ar ben hyn bydd Clerc y Cyngor yn rhoi gwybod i aelodau'r Cyngor am leoedd gweigion a gwahodd enwebiadau, gan roi cymaint o rybudd am y lleoedd gweigion a'r dyddiad cau ar gyfer enwebiadau ag sydd yn rhesymol er mwyn galluogi'r Pwyllgor Enwebiadau i'w hystyried.

   3. Bydd y Pwyllgor Enwebiadau fel arfer yn rhoi ei argymhellion ar gyfer aelodau i'w penodi i'r Cyngor erbyn ei gyfarfod olaf cyn i'r lleoedd ddod yn wag.

   4. Os yw aelod annibynnol yn gadael, bydd y lle gwag dros-dro yn cael ei lenwi cyn gynted ag y bo modd yn unol â'r drefn a ddisgrifir yn 1.2 ac 1.3.

2. <u>Ailbenodiadau</u>

   1. Gellir ystyried ailbenodi aelod annibynnol am dymor ychwanegol o bedair blynedd, ar yr amod na fydd yn gwasanaethu am dros wyth mlynedd o'r bron yn y categori hwnnw. Bydd unrhyw ailbenodiad gan y Cyngor yn seiliedig ar argymhelliad priodol gan y Pwyllgor Enwebiadau, gan ddefnyddio canlyniadau arfarniadau blynyddol y r aelod yn ystod eu tymor cyntafyn y swydd.

   2. Os yw rhywun wedi gwasanaethu am y cyfnod hiraf a ganiateir i aelodau annibynnol ni fydd ar dir i'w ethol ymhellach yn yr un categori tan i dair blynedd fynd heibio.

   3. Bydd aelod annibynnol sy'n cael ei symud o'i swydd yn unol ag Ystatud 12(2) (a) (iv) ar dir i'w ailbenodi ar ôl cyfnod o ddwy flynedd.